**BCofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**2/4/2024**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw P Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Heledd Jones, Alwyn M Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

**3041 Sylwadau'r Cadeirydd** Ar ôl croesawu'r Cynghorwyr, estynnodd y Cadeirydd gyd-ymdeimlad at ddau deulu lleol yn eu profedigaeth ar ôl colli anwyliaid yr wythnos hon.

Adroddodd am ddatblygiad diddorol rhwng Cynulleidfa Soar, Cynllwyd, ac Elusen Maurice Vaughan sydd wedi cytuno a'i gilydd i ganiatáu i'r Capel barhau mewn defnydd ar gyfer addoli ac i'r tŷ gael ei adnewyddu ar gyfer ei osod i bobl leol. Gall y cynllun hwn fod yn beilot ar gyfer mwy o berchnogaeth gymunedol o dai yn yr ardal. Bydd Huw Antur yn allweddol i'r prosiect a diolchwyd iddo am ei ymlyniad i gael cartrefi fforddiadwy i bobl leol.

**3042 Ymddiheuriadau:** Alwyn E Jones**,** Dewi Wyn Jones, y Cynghorydd Alan Jones Evans

**3043 Buddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Huw Antur ym mater 3050,mynwent yr Eglwys.

**3044 Cofnodion cyfarfod 5/3/24:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3045 Materion y Clerc / Cofnodion**

3032i T3 – Cyfarfod gyda Gethin George – nid ydyw Mr George wedi cadarnhau'r union ddyddiad hyd yn hyn.

3035ii Cyfraniad Cymunedol i Theatr Derek Williams: dylai'r cais fod wedi ei gynnwys yn nhrafodaethau mis Mawrth. Penderfynodd yr Is-bwyllgor cyllid i gyfrannu £100 a chymeradwywyd hyn gan y Cyngor.

3038i Gwybodaeth am "Croeso Cymraeg i Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Llŷn". Diolchwyd i Gyfeillion Llŷn am esbonio a chytunwyd i anfon atynt fod y Gymraeg yn ganolog i waith a phenderfyniadau Cyngor Cymuned Llanuwchllyn ac ein bod bob amser yn barod i gydweithio gyda busnesau a chynghorau Penllyn i hyrwyddo'r iaith.
Mae'r Cyngor eisoes yn cyd-weithio'n hapus gyda'r Awdurdod Cynllunio, sef Parc Cenedlaethol Eryri

3038ii Cyfarfod gyda'r Heddlu: Cadarnhawyd y dyddiad - 3/5/24 am 6.00pm

**3046 Cyngor Gwynedd** Derbyniwyd Adroddiad a anfonodd y Cynghorydd Gwynedd. Mae'n falch bod y gwaith i arafu cerbydau wrth gyffyrdd Y Prys a Stryd Dwr wedi ei gwblhau. Hoffai'r aelodau weld llinellau lletraws yng nghanol y ffordd wrth gyffordd y Prys; byddai culhau'r briffordd yn gymorth i arafu'r traffig yn y fan hon.

Roedd Peiriannydd Cyngor Gwynedd wedi gweld dros ei hun pa mor beryglus yw tramwyo dros y bont i gyrraedd Llwybr Cei, ac roedd wedi cysylltu gyda'r Cynghorydd i ddweud y byddai'n trafod ei bryderon gydag uwch swyddogion a NMWTRA.

Dywedodd y Cynghorydd y bydd swyddog yn ymweld a'r gwaith sydd angen ei wneud ar ffordd Brynllech a'r gangen wrth y groesffordd.

Tynnwyd ei sylw at y dwr yn gorlifo bron oherwydd nad yw'r ffosydd wedi eu clirio ar gopa Bwlch y Groes. Clywyd fod hyn yn broblem cyffredinol yn yr ardal ac yn creu mwy o gostau yn y pen draw oherwydd difrod i wyneb y ffordd.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad a'i waith.

**3047 Is-bwyllgorau**

1. <u>Grŵp Datblygu:</u> Derbyniwyd adroddiad a chofnodion o gyfarfodydd y Grwp Datblygu, yn cynnwys cyfarfodydd gyda
   a. Steffan Smith, Llywodraeth Cymru "Tai a arweinir gan y Gymuned" ar 6/3/24
   b. Parc Cenedlaethol Eryri 20/3/24 - Fforwm Cymunedau'r Parc Cenedlaethol.
   c. Kath Griffiths, Hwylusydd Tai "Cwmpas" 26/3/24
2. <u>Mynwentydd:</u> Diolchwyd i'r aelodau am glirio'r fynwent cyn y Pasg. Mae'n drueni fod rhai yn lluchio gwastraff ar lawr wrth Borth y Fynwent er bod arwydd yno yn gofyn am beidio gwneud. Mae bin ar gael, os oes raid, ym maes parcio'r fynwent – ond mae'n anghyfreithlon rhoi sbwriel y gellid ei ail-gylchu yn hwn. Gofynnir i bobl fynd a gwastraff adref, os gwelwch yn dda.
   Mae angen trafodaeth ac efallai cyfarfod ar y safle gyda'r Ymgymerwyr parthed cyrbau; disgwylir argymhellion ar gyfer cyfarfod Mai o'r Cyngor.
   Mae ffioedd y Fynwent wedi eu hadolygu a bydd Swyddog y Fynwent yn eu hanfon at yr Ymgymerwyr.
   Cadarnhawyd mai cytuno i dorri gwair Mynwent y Pandy ddwy waith y flwyddyn y mae'r Cyngor wedi ei wneud; mae'r fynwent yn parhau ym mherchnogaeth y Methodistiaid.
3. <u>Bioamrywiaeth:</u> Cafwyd cyfarfod ar 15/3/24 a nodwyd lleoliad wrth terfyn y maes parcio ar cyfer y Parc i blannu coed yw, os dymunant.
4. <u>Nadolig:</u> heb gyfarfod.
5. <u>Asedau:</u> Adroddwyd bod angen paentio'r Cyfleusterau Cyhoeddus. Diolchwyd i'r contractiwr a anfonodd dyfynbrisiau a chytunwyd ar y dewis.
6. <u>Cyllid:</u> Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod 17/3/24.

**3048 Materion Ariannol:** Cytunwyd i dalu anfonebau mis Mawrth; cytunwyd hefyd i dalu aelodaeth Un Llais Cymru.

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau Cymunedol | £1,100.00 |
| CThEF | £243.00 |
| Hanner cost MAD – Neuadd | £420.00 |
| Anfonebau'r Nadolig: | £287.42 ac £20 |

Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am baratoi'r Ffurflen Archwilio Flynyddol a chaiff ei hanfon maes o law at yr Archwilydd Mewnol.

Cytunwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid adolygu telerau'r Cytundeb Glanhau y Cyfleusterau Cyhoeddus.

**3049 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae'r drafodaeth am ddarparu trafnidiaeth cymunedol o ryw fath yn parhau ar y gweill. Bydd cynllun peilot cyhoeddi'r *Cyfnod* yn cychwyn yn fuan. Cynhelir Gŵyl Fwyd ar ddiwrnod Ffair Y Bala.

**3050 Menter Gymunedol:** Ystyriwyd cais i symud 2 garreg fedd yng ngwaelod mynwent yr Eglwys. Mae Elfyn Llwyd wedi gwneud gwaith ymchwil ar gyfer hyn. Cytunodd y Cyngor i'r broses gychwyn a rhoddwyd yr hawl i'r Clerc /Cadeirydd i gynrychioli'r Cyngor yn y broses a arweinir gan Elfyn Llwyd, gan adrodd yn ôl i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn dymuno i'r 2 garreg dderbyn y parch a'r gofal dyladwy wrth eu symud, ac yn dymuno iddynt gael eu hadleoli i safle addas arall o fewn y fynwent.

**3051 Cynllunio:** Cymeradwywyd cais **NP5/71/119L** Gwella offer telathrebu ar y tŵr dellt 10m presennol ar goncrit 3.5m x 3.5m (Ar ben Antenâu EE/H3G +13.0m AGL) ynghyd a gwaith cysylltiedig - Drws y Nant, Llanuwchllyn.

**3052 Gohebiaeth:**

i. Derbyniwyd diolchiadau oddi wrth bawb a dderbyniodd nawdd gan y Cyngor.
ii. Llywodraeth Cymru: Gofynnwyd i'r Clerc ymateb i'r Ymgynghoriad ar Restrau Ymgeiswyr Etholiadol.
iii. Un Llais Cymru: Derbyniwyd restr o dyddiadau hyfforddiant.
iv. Un Llais Cymru: Derbyniwyd amserlen gweithrediadau ariannol.
v. Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am y Gronfa Gymunedol.
vi. Ystyriwyd cais am gymorth i 3 pherson ifanc o'r Gaiman ymweld a Llanuwchllyn. Cytunwyd y byddai croeso arbennig iddynt ac y byddid yn ceisio cyfrannu peth cymorth ariannol gan fod Llanuwchllyn wedi gefeillio a'r Gaiman yn ddiweddar. Cytunwyd i holi am fwy o fanylion.
vii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am y digwyddiad "Tai ar daith" 16/5/24 Tŷ Siamas 3.30-6.00pm
viii. Cornerstone Shared Rural network – cytunodd 3 i gynrychioli'r Cyngor yn y digwyddiad.
ix. Derbyniwyd Canllaw BT ar "Digital Voice".

**3053 Materion lleol y Cynghorwyr:** Diolchwyd **i** Warden y Parc am drefnu ffensio darn o Lwybr Cei. Cytunodd y Cadeirydd i anfon llun ato o leoliad gosod y fainc.

**3054 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 7/5/24 yn y Neuadd Bentref.